

SALISBURY, THOMAS (1567?-1620), cyhoeddwr llyfrau yn Llundain.

Enw: Thomas Salisbury
Dyddiad geni: 1567?
Dyddiad marw: 1620
Rhiant: Pierce Salisbury
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyhoeddwr llyfrau
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: William Llewelyn Davies

Pan rwymwyd ef i wasnaethu Oliver Wilkes, llyfrwerthwr, Llundain, ar 9 Hydref 1581, fe'i disgrifiwyd yn fab i Pierce Salberye o blwyf Clokanock (Clocaenog), sir Ddinbych. Fe'i gwnaethpwyd yn rhyddfreniwr o'r Stationers' Company ar 16 Hydref 1588; efallai mai ef hefyd ydyw'r Salisbury a elwir yn 'a bookbinder dwelling in Powles churchyard ' yn Hist. MSS. Comm., *Cecil MSS.*, vi, 288-9. Cyhoeddodd Thomas Salisbury bedwar (o leiaf) o lyfrau Cymraeg yn Llundain - (a) [Henry Salesbury](#), *Grammatica Britannica*, 1593; (b) [William Middleton](#), *Psalmes y Brenhinol Brophwyd Dafydd gwedi i cynghaneddu mewn mesurau cymreig*, 1603; (c) [Edward Kyffin](#), *Rhann o Psalmes Dafydd Brophwyd*, 1603; a (ch) cyfieithiad Cymraeg o ran o *Basilikon Doron* (llyfr y brenin James I), 1604. Mynegir yng nghofrestr Cwmni'r Stationers o dan y flwyddyn 1597 ei fod yn bwriadu cyhoeddi cyfieithiad Cymraeg o *A godly meditation of the soule concerninge a love towards Christ our Lord*, eithr ni wyddys a ymddangosodd y cyfieithiad. Mewn llythyr a ysgrifennodd at [Syr John Wynn, Gwydir](#), c. 1610 (gweler [Ballinger a Jones](#), *The Bible in Wales* a *N.L.W. Calendar of Wynn of Gwydir Papers*), y mae'r cyhoeddwr yn cyfeirio at amryw lyfrau yn Gymraeg y buasid wedi eu cyhoeddi oni buasai i [Edward Kyffin](#) farw pan ymwelodd pla â Llundain yn 1603; sylwer ar y gair Rhann yn nheitl llyfr salmau [Kyffin](#) ac na chwpláwyd argraffu'r *Basilikon*. Cyflwynwyd *Psalmes* [William Middleton](#) ('[Gwilym Canoldref](#)') i [Syr Thomas Myddelton](#), a oedd yn berthynas i'r bardd. Dangosodd [E. D. Jones](#) (*Cylchgrawn Ll.G.C.*, i, 52-3) gymaint o gymorth a roes [Syr Thomas](#) i Salisbury; ar 5 Ionawr 1593/4 rhoes fenthyg £10 i ' Thomas Salisbury stacioner, and Harry Salesbury clarck ' ([Henry Salisbury](#) y *Grammatica*?) tuag at argraffu llyfr a elwid ' *the sickmans salice in the Welshe tong*,' ac, ar 12 Hydref, fenthyg £30 tuag at argraffu *Psalmes* [William Middleton](#) (gweler llyfr cyfrifon [Syr Thomas Myddelton](#) ymysg llawysgrifau castell Chirk yn Ll.G.C.).

Awgrymir (yn *D.N.B.*) y gallai JOHN SALISBURY (fl. 1695), argraffydd yn Llundain, fod yn yr i Thomas Salisbury. Ef oedd argraffydd cyntaf (a golygydd) y *Flying Post*, a ddechreuodd ymddangos ar 11 Mai 1695; gweler ychydig fanylion ychwanegol amdano yn y *D.N.B.* Y mae'n bosibl iddo ef farw cyn 1705.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddir uchod (a'r rheini a roddir yn y *Oxford Dictionary of National Biography*) ychwaneger

R. B. McKerrow (gol.), *A dictionary of printers and booksellers in England, Scotland and Ireland, and of foreign printers of English books 1557-1640* (London 1910)

Journal of the Welsh Bibliographical Society, ii, 169-70, 180-2

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18530864](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

